## PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 28 Tachwedd 2001 |
| **Amser:** | 2.00 i 4.45 pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## ADOLYGIAD POLISI: ADRODDIAD TERFYNOL DRAFFT

### Pwrpas

1. Gwahodd y Pwyllgor i dderbyn ei adroddiad terfynol ar drafnidiaeth gyhoeddus.

### Cefndir

2. Ystyriodd y Pwyllgor ymatebion i'w adroddiad ymgynghori yn y cyfarfod ar 31 Hydref, a chytunwyd ar argymhellion ar gyfer newidiadau trefniadol yn yr hir dymor.

### Adroddiad drafft

3. Atodir yn **Atodiad A** ddrafft o'r adroddiad terfynol, a fydd yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg). Cynnwys yr adroddiad yw:

- **Pennod 1**, y **cyflwyniad**, yn ailadrodd gweledigaeth y Pwyllgor ac yn nodi cynnydd ar y gweill i weithredu'r prif argymhellion;

- **Pennod 2** yn crynhoi'r ymatebion i'r adroddiad ymgynghori, yn gosod allan farn y Pwyllgor ar **strwythurau trefniadol posibl eraill**, ac yn gwneud argymhellion pellach;

- **Pennod 3** yn crynhoi'r **argymhellion** newydd ar gyfer y tymor hir yn ogystal ag argymhellion yr adroddiad ymgynghori;

- Mae'r **Atodiadau** yn cynnwys ymatebwyr i'r adroddiad ymgynghori (Atodiad 1); dewisiadau ymatebwyr ar strwythurau trefniadol posibl eraill (Atodiad 2); dadleuon o blaid ac yn erbyn Awdurdod Trafnidiaeth i Deithwyr (PTA) (Atodiad 3); a nodyn ar bwerau ychwanegol i'r Cynulliad Cenedlaethol (Atodiad 4).

**Amseru**

5. Mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi trefnu cyflwyno'r adroddiad terfynol i'r sesiwn lawn ar 11 Rhagfyr 2001, rhaid gosod y dogfennau erbyn 3 Rhagfyr.

**Argymhelliad**

6. Gwahoddir y Pwyllgor i dderbyn y drafft a atodir yn **Atodiad A**.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

Tachwedd 2001